Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mawrth, 31 Ionawr 2017

15.00 - 16.00

Swyddfeydd y Coleg, Tŷ Phoenix, Caerdydd a thros y rwydwaith fideo

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Andrew Green (Cadeirydd) William Callaway, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Fflur Elin, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch (stiwdio Bangor) Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch (stiwdio Abertawe) Gwilym Dyfri Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol (stiwdio Bangor) Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch (stiwdio Aberystwyth) Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (stiwdio Bangor)
Sylwedyddion:	Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Catherine Rees, Ysgrifennydd
Ymddiheuriadau:	Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol ac Is-gadeirydd Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion. 1.3 Adroddwyd bod Geraint James wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad am resymau personol ac y byddai'r Ysgrifennydd yn gweithredu'r ymddiswyddiad ar y degfed dydd gwaith wedi iddi ei dderbyn. Byddai hyn yn golygu lle gwag ar gyfer cyfarwyddwr annibynnol ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr, ac am gadeirydd ar y Pwyllgor Archwilio a Risg.	Ysgrifennydd i weithredu'r ymddiswyddiad a gweithredu i hysbysebu am gyfarwyddwr annibynnol newydd trwy gyfrwng y Pwyllgor Penodiadau	Chwefror 7fed.
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Nodwyd y byddai angen i'r cyfarwyddwyr ddatgan unrhyw ddiddordeb wedi iddynt glywed gan Gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau, Meirion Prys Jones, pwy fyddai'r Cadeirydd newydd.		
3. Derbyn a chymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau ar gyfer swyddogaeth Cadeirydd y Coleg	3.1 Derbyniwyd adroddiad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau, Meirion Prys Jones, ar argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau ar gyfer swyddogaeth y Cadeirydd, sef Dr Haydn Edwards.Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb. Amlinellodd Meirion Prys Jones y broses agored a ddilynwyd gan y Pwyllgor Penodiadau, yn unol â'i Gylch Gorchwyl. Cafwyd mwy nag un ymgeisydd ar gyfer y rôl a chynhaliwyd cyfweliadau trylwyr. Derbyniwyd tystlythyrau ardderchog ar gyfer Dr Edwards gan Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Estyn, a gan Elizabeth Elias, Llywydd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru.		

	3.2 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r argymhelliad uchod a chytunwyd nad oedd y ffaith fod y Dr Edwards yn gysylltiedig â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gwrthdaro gyda'r swyddogaeth o Gadeirydd y Coleg. Nodwyd ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan ac yn sgil hynny yn eistedd ar Fwrdd y Cwmni. 3.3 Cymeradwywyd penodiad Dr Haydn Edwards fel Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn unfrydol. Bydd Dr Edwards yn cymryd yr awenau ar 1 Ebrill 2017. 3.4 Gofynnwyd i'r cyfarwyddwyr gadw'r enw yn gyfrinachol hyd nes bod cyhoeddiad swyddogol wedi ei wneud gan y swyddogion. Byddai'r Ysgrifennydd yn cysylltu â'r cyfarwyddwyr pan fyddai hyn yn digwydd yn ystod yr wythnos ganlynol.	Ysgrifennydd i hysbysu'r cyfarwyddwyr pan fyddai'r cyhoeddiad swyddogol yn cael ei wneud.	
4. Unrhyw fusnes arall	4.1 Nid oedd unrhyw fater arall.		
5. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	5.1 Nodwyd y dyddiadau isod: • Cyfarfod y Llys, 4.00 ar 8 Mawrth 2017, Prifysgol Abertawe • Cynulliad Blynyddol y Coleg am 6.30, 8 Mawrth 2017, Prifysgol Abertawe • Cyfarfod nesaf y Bwrdd, 22 Mawrth 2017, Prifysgol Abertawe 5.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith ac i'r swyddogion am y gwaith o weithredu trefniadau penodi'r Cadeirydd.		